Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun / Textphone : 029 2032 0660
post@archwilio.cymru / info@audit.wales
www.archwilio.cymru / www.audit.wales

Mr Chris Moore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

**Cyfeirnod:** WPP-25/26

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2026

Annwyl Chris,

# Ffurflen Flynyddol 2025-26 Cyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 14 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yr wyf yn cyflwyno fy adroddiad ar Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. I grynhoi, mae'r gweithdrefnau hyn yn gofyn i ni ystyried a yw'r datganiad blynyddol o'r cyfrifon:

- wedi ei baratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigyrau'n cytuno i'r cofnodion sylfaenol y maent wedi'u paratoi arnynt ac yn gyson â thrafodion a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac yn
- bwrw'n gywir.

## Adroddiad archwilio ar y Ffurflen Flynyddol sy'n ymwneud â Chyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026:

Yn amodol ar gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2025-26 gan y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2026, bydd modd inni gadarnhau'r canlynol:

“Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i’m sylw sy’n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol;
- yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol;
- heb fod yn gyson â threfniadau llywodraethu'r Pwyllgor; ac
- nad oes gan y Pwyllgor drefniadau priodol ar waith i ddiogelu darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.”

## Materion eraill

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eu dwyn i'ch sylw.

Yr eiddoch yn gywir

**Kate Havard**

**o blaid ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru**